# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Plas Penmon**

**Cartref Nyrsio Plas Penmon**
**Penmon**
**Biwmares**
**LL58 8RN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 24 Awst 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Plas Penmon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Coed Du Hall Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw]<br>29 Gorffennaf 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng Nghartref Nyrsio Plas Penmon yn cael gofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt ac sy'n gwbl ymwybodol o'u hanghenion Mae'r staff yn dangos agwedd ofalgar tuag at y bobl ac maent yn darparu gofal ag urddas a pharch. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg ac yn gallu darparu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r cartref mewn lleoliad hardd ac mae ar dir helaeth. Nid yw'r cartref wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae angen gwaith er mwyn rhoi amgylchedd i'r bobl sy'n diwallu eu hanghenion ac er mwyn cydymffurfio â rheoliadau. Mae angen ymdrin â materion sy'n ymwneud â storio ac iechyd a diogelwch hefyd, felly hefyd nifer y staff, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â hyn.

Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar eu gofal ac yn teimlo bod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r bobl yn fodlon ar y bwyd a gaiff ei gynnig yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn cael dewis. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd er mwyn teimlo'n gartrefol.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn llunio adroddiadau am ansawdd y gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ato a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt sy'n eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn garedig ac yn ystyriol. Gwelsom ymatebion i holiaduron ansawdd a roddwyd i deuluoedd; gwnaethant ymateb yn gadarnhaol am y gofal a roddir i'w perthnasau. Nododd rhai teuluoedd fod angen adnewyddu'r amgylchedd mewn ardaloedd. Gwelsom y bobl yn aros am ofal oherwydd y niferoedd isel o staff, ond pan oeddent ar gael i fynd atynt, gwelsom fod y staff yn sylwgar ac yn dangos gofal tuag at y bobl.

Caiff y bobl gymorth i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Gall y bobl gael ymwelwyr yn eu hystafelloedd. Gwelsom fod teuluoedd yn gallu mynd â'u perthynas allan am y diwrnod os oeddent mewn sefyllfa i wneud hynny. Prin oedd y gweithgareddau a nodwyd ar gyfer y bobl, oherwydd materion staffio. Ni welsom weithgareddau penodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia.

Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd er mwyn eu helpu i deimlo'n gartrefol. Gwelsom fod angen gwaith cynnal a chadw ac ailaddurno drwy'r cartref cyfan er mwyn darparu amgylchedd pleserus ac urddasol. Mae angen uwchraddio'r ardal fwyta er mwyn sicrhau profiad bwyta cymunedol da. Mae'r tir yn helaeth ac yn cael ei gadw'n dda ar y cyfan; fodd bynnag, mae cyfarpar sydd wedi torri a sgipiau/biniau yn achosi peryglon baglu ac yn cael effaith negyddol ar y golygfeydd o rai o'r ystafelloedd.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y prydau bwyd a ddarperir a'u bod yn gallu dewis. Gwelsom fod y brecwast a'r cinio a ddarparwyd i'r bobl o ansawdd da. Roedd y bobl yn aros am gymorth gyda'u prydau bwyd oherwydd materion staffio. O ganlyniad, gwelsom fod hyn yn golygu bod rhai o'r bobl yn bwyta eu brecwast a'u cinio ar yr un pryd.

Mae'r diffyg staff yn effeithio ar amseroldeb y gofal. Roedd salwch ymhlith aelodau o'r staff yn ffactor ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, clywsom gan y staff a gwelsom o'r rotas, fod lefelau staffio isel yn gyffredin yn y cartref. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y cartref yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff oherwydd cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwael yn lleol.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Roedd y staff gofal a'r nyrsys y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r broses ddiogelu leol pe byddai ganddynt bryderon am breswylwyr. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ato a'i fod yn gwrando arnynt os oedd ganddynt bryderon.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl ofal mewn ffordd urddasol a pharchus. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r unigolion mewn ffordd ystyrlon a gofalgar. Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt; yn gyffredinol, gallant ddewis eu trefn o ddydd i ddydd ac maent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt. Mae'r cynlluniau personol yn gyfredol. Caiff asesiadau diabetig ac atgyfeiriadau at y meddyg teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol fel y Nyrs Hyfywedd Meinwe eu hanfon mewn modd amserol. Caiff yr holl asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) eu cadw yn ffeiliau'r preswylwyr ac maent yn gyfredol. Caiff yr unigolion gymorth i fynychu apwyntiadau meddygol. Rhoddir dewis o brydau bwyd i'r preswylwyr a chaiff deietau priodol eu paratoi i bob preswylydd. Ni chaiff anghenion gofal y bobl yn ystod y nos bob amser eu cofnodi yn eu cynlluniau personol. Mae'n bwysig bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r gweithwyr gofal am anghenion cymorth y bobl yn ystod y dydd a'r nos, er mwyn gallu rhoi parhad gofal i'r bobl. Ni chaiff taflenni rowndiau, sy'n cofnodi'r gofal sylfaenol a roddir i'r bobl ar unrhyw adeg benodedig, eu cwblhau'n ddigonol ac nid ydynt yn darparu llwybr archwilio cadarn o ofal y bobl. Er eu bod wedi cael eu hadolygu a'u bod yn gyfredol, mae rhywfaint o ailadrodd rhwng ffeiliau'r cynlluniau personol, a diffyg gwybodaeth bersonol am yr unigolion sy'n cael gofal. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae prosesau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae'r staff yn ymwybodol o ba mor bwysig yw gwneud atgyfeiriadau perthnasol at dîm diogelu'r awdurdod lleol os bydd ganddynt unrhyw bryderon am y bobl y maent yn eu cefnogi. Dywedodd y gweithwyr gofal a'r nyrsys wrthym eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a bod y staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu. Dywedodd y gweithwyr gofal a'r nyrsys hefyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr. Nid oedd y bwrdd gweithgareddau yn dangos unrhyw weithgareddau a oedd wedi'u cynllunio ac ni welsom unrhyw weithgareddau ar ddiwrnod yr arolygiad, a all gael effaith ar lesiant yr unigolion. Gwelsom fod y staff yn rhy brysur yn rhoi gofal personol i allu darparu gweithgareddau ac ysgogiadau i'r bobl. Nid oes unrhyw weithgareddau sy'n addas i bobl â dementia yn y cartref er mwyn ysgogi cof y bobl. Roedd un o'r preswylwyr wedi bod allan gyda'i deulu y diwrnod blaenorol gan ddefnyddio 'Barbara's Bus', sef elusen gofrestredig sy'n rhoi annibyniaeth i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Mae lefelau staffio yn annigonol weithiau, ac mae hyn yn effeithio ar y gofal a'r cymorth a ddarperir. Nid yw'r ddogfennaeth gofal, a ddefnyddir i gofnodi'r cymorth a ddarperir, bob amser yn cael ei chwblhau'n llawn. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl bod yn siŵr bod y bobl wedi cael y gofal sydd ei angen arnynt. Roedd y ddogfennaeth a oedd wedi'i chwblhau yn nodi nad oedd y bobl wedi derbyn y gofal a'r cymorth yr oedd ei angen arnynt o ran cael eu hail-leoli ar yr adegau priodol. Gwelsom bobl yn gorfod aros i weithwyr gofal ymateb ar ôl galw am gymorth. Dywedodd y staff wrthym fod hyn oherwydd prinder staff. Roedd rhesymau penodol am hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r staff yn rhoi gofal priodol i'r bobl

pan fyddant yn ymateb. Ni chafodd rhai o'r bobl eu brecwast tan ganol dydd oherwydd lefelau staffio isel. Pan gawsant gymorth gyda'u pryd bwyd, roedd y staff yn rhyngweithio mewn ffordd briodol ac amserol â nhw. Ar adegau, nodwyd bod y cogydd yn dewis gweithio ar ei ddiwrnod i ffwrdd er mwyn helpu'r preswylwyr, er mwyn sicrhau bod trefniadau staffio digonol. Gwelsom rotas a oedd yn cadarnhau bod problemau staffio y mae angen ymdrin â nhw. Mae lefelau staffio isel yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Yr Amgylchedd

Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnig mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo llesiant y bobl Mae angen ymdrin â'r amgylchedd awyr agored gan fod cyfarpar wedi torri yn cael ei adael yn yr ardaloedd awyr agored a bod drysau sydd wedi torri wedi'u byrddio, gan greu awyrgylch digroeso a di-drefn yn y cartref. Nid oes mynedfa glir a hygyrch i'w gweld  wrth gyrraedd y cartref ac mae'r staff yn gofyn i ymwelwyr ddefnyddio mynedfa amgen. Nid yw un o'r ystafelloedd ymolchi yn y cartref yn hygyrch nac yn ddiogel i'r preswylwyr gan fod ceblau a chyfarpar trydanol yn cael eu storio mewn bath nad yw'n cael ei ddefnyddio. Nodwyd materion eraill yn ymwneud ag iechyd a diogelwch gennym yn y cartref hefyd, er enghraifft, gwifrau rhydd yn achosi perygl baglu. Nid oes llawer o gyfleusterau storio addas, ac o ganlyniad mae annibendod o amgylch y cartref. Gosodwyd rhai ffenestri newydd, ond  mae llawer ohonynt yn wydr sengl o hyd ac yn ddrafftiog. Gwelsom nad oes cyfyngwyr priodol ar ffenestri'r llawr cyntaf a'r lloriau uwch fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch. Nid yw darnau o ddodrefn trwm fel cypyrddau dillad wedi'u hatodi'n sownd at y waliau mewn sawl ystafell, sy'n golygu bod risg o anaf i'r bobl. Mae'r rheolwr wedi rhoi sicrwydd i ni yr ymdriniwyd â'r materion hyn ers ein hymweliad arolygu. Nid yw'r clychau galw bob amser wedi'u gosod a'u lleoli o fewn cyrraedd i ddiwallu anghenion yr unigolion. Mae'r materion hyn yn peri risg i iechyd a diogelwch y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.

Caiff yr ardaloedd dan do yn y cartref eu cynnal a'u cadw'n wael. Nid yw'r cartref wedi cael ei addurno ers cryn amser. Yn gyffredinol, mae'r paent a'r gwaith pren mewn sawl ystafell a choridor mewn cyflwr gwael ac mae angen addurno. Mae'r dodrefn mewn sawl ystafell yn hen, mae crafiadau arno ac mae angen ei uwchraddio. Mae angen adnewyddu décor a dodrefn yr ystafell fwyta er mwyn gallu cynnig profiad bwyta pleserus. Mae angen i'r amgylchedd fod yn fwy ystyriol o bobl â dementia er mwyn diwallu anghenion pobl yn effeithiol. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.

Nid oes digon o le storio yn y cartref ac mae hyn yn effeithio ar yr amgylchedd, y preswylwyr a'r staff. Caiff cyflenwadau a chyfarpar eu cadw ym mhob rhan o'r cartref ac yn y bwthyn cyfagos, sy'n arwain at annibendod. Mae'r annibendod hefyd yn arwain at risg tân ac mae'r Swyddog Tân wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau er mwyn lliniaru'r risg hon. Dywedodd y staff wrthym nad oes ganddynt le i gael eu hegwyl na'u cinio, sy'n ychwanegu at eu teimladau o straen yn ystod eu sifft. Mae'r materion storio yn y cartref yn cael effaith ar weithrediad y cartref o ddydd i ddydd. Cyhoeddwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu ar unwaith.

Gall y bobl gael dylanwad ar eu hamgylchedd personol. Caiff ystafelloedd y bobl eu personoli â phethau cofiadwy a lluniau o'r teulu. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi ystyried

dymuniadau'r unigolion o ran sut y caiff eu hystafelloedd eu dodrefnu. Buddsoddwyd mewn gwelyau newydd a all eu gosod yn agos at y llawr ac sy'n helpu i leihau'r risg y bydd y bobl yn syrthio. Prynwyd dillad gwely a gobenyddion newydd a gall y bobl ddewis pa fath o obennydd y mae'n well ganddynt.

Mae'r gwiriadau iechyd a diogelwch mewn perthynas â chyfarpar a gweithrediad y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn gyfredol. Mae'r awgrymiadau o'r adroddiad diogelwch tân diweddar wedi cael eu hystyried a chânt eu rhoi ar waith. Roedd yr adroddiad hylendid bwyd ar gyfer y gegin yn dda ac mae'r gegin yn lân ac yn drefnus.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol yn bodloni gofynion y rheoliadau drwy ymweld â'r cartref yn rheolaidd a llunio adroddiadau ysgrifenedig am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae'r tîm rheoli yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol ac yn ymateb i ofynion diogelu. Trafodwyd yr angen i hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am bob digwyddiad hysbysadwy mewn modd amserol.

Mae'r arferion recriwtio staff yn foddhaol. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o ffeiliau'r staff a gwelsom fod gwiriadau digonol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn ddiogel i weithio gydag oedolion agored i niwed. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a bod y rheolwr yn gwrando arnynt. Lleisiodd y staff bryderon am y diffyg staff oherwydd salwch a phroblemau recriwtio. Roedd y staff yn teimlo fod hyn yn effeithio ar amseroldeb y gofal a roddir i'r bobl a'i fod yn golygu nad yw'r bobl bob amser yn cael dewis o ran pryd i godi neu fynd i'r gwely.

Gwelsom fod hyfforddiant staff wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod wedi bodloni'r gofynion o ran hyfforddiant erbyn hyn gan ei bod wedi bod yn anodd darparu/mynychu hyfforddiant yn ystod pandemig COVID-19. Roedd sesiynau goruchwylio staff, i'w helpu i ymgymryd â'u rôl gofalu, yn gyfredol.
Nid yw'r darparwr wedi datgan unrhyw anawsterau ariannol i AGC.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 34 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod nifer digonol o staff ar gael bob amser i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. | Newydd |
| 44 | Nid yw'r cartref wedi cael ei gynnal a'i gadw'n briodol i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref, nac anghenion y staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth. | Newydd |
| 57 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau y caiff y risgiau amgylcheddol i iechyd a diogelwch y bobl sy'n byw yn y cartref eu nodi a'u lleihau er mwyn sicrhau eu llesiant a chydymffurfio â'r rheoliadau. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw cynlluniau personol y bobl bob amser yn canolbwyntio ar eu hanghenion a'u canlyniadau unigol. Nid yw rhai agweddau ar y cynlluniau personol yn benodol i bob person er mwyn galluogi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/02/2023